CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION HYDREF 15, 2019

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Hydref 15, 2019 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Meurig Ashton (Is-gadeirydd), W. Barry Jones, Karen G. Goswell, Huw A. Evans, Mordaf Roberts, Gerallt Griffith, Emlyn Roberts, Rhun Prys Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins (Cadeirydd),

Yn absenoldeb Peredur Jenkins, (Cadeirydd) cadeirwyd y cyfarfod gan Meurig Ashton (Is-gadeirydd).

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 17, 2019

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 17, 2019

Eitem 10.a. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad.

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

Eitem 8.ch. Cafwyd apwyntiad ar 18/9/2019. Roedd yr holwr yn holi beth mae'r Cyngor yn ei wneud, materion ariannol (gwariant, presept) a phwy sy'n gyfrifol am y Cyngor.

Llythyr (18/ 9/ 2019) yn rhoi gwybod maent angen manylion Alun Meurig Ashton a Thomas Mordaf Roberts. Roeddynt hefyd eisiau gwybod y rheswm am y Cyngor a pam mae angen banc. Gwnaethpwyd ymoliadau gydag Un Llais Cymru ac efo Archwilydd Mewnol (19/9/2019) am gymorth. Derbyniwyd gwybodaeth ganddynt a chafodd eu cynwys yn y llythyr (24/9/2019) i'r Banc gyda chopi o Gwariant ac Incwm 2018/19.

Eitem 6.f. Llythyr ateb (25/9/2019) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ynglŷn â goryrru wrth Bont Fronwydd / Hen Hufenfa, Rhydymain ar ffordd A494. Anfonwyd ein llythyr ymlaen i Lywodraeth Cymru i gael ateb oherwydd mae'r mater ymwneud ag yntau Pholisi neu Flaenoriaeth Gwaith.

Llythyr (3/9/2019) oddi wrth Lywodraeth Cymru. Maent yn rhoi gwybod mae adolygiad a gwaith ar gyflymder ar ran hon o'r ffordd wedi ei wneud i wella'r arwyddion a'r marciau ffordd. Mae'r data diweddaraf yn dangos gwelliant yn niogelwch. Hefyd, mae'r data yn dangos bod cyflymder yn is na'r terfyn cyflymder statudol. Nid oes unrhyw gofnod o gwynion ynghylch rhan hon o'r ffordd, ac felly nid yw wedi'i chynnwys yn yr adolygiad o derfynau cyflymder. Fodd bynnag, maent yn monitro data yn rheolaidd i gasglu tystiolaeth o'r angen am welliannau peirianyddol er diogelwch neu newidiadau i'r terfyn cyflymder.

Mae Gan Bwyll, sef Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru, yn gyfrifol am orfodi terfynau cyflymder ledled Cymru. Maent yn awgrymu ni i gysylltu â Gan Bwyll, gan nodi ein pryderon ynghylch goryrru ar y rhan hon o'r ffordd

Anfonwyd y llythyr ymlaen i rheini dderbynwyd y cwyn, sef Mr Rhys Lloyd Evans, Mr Huw Ifor, Cyng. Alan Jones Evans, Peredur Jenkins, ac Emlyn Roberts.

Penderfynwyd anfon y llythyrau ymlaen i Gan Bwyll fel awgrymwyd uchod.

Eitem 8.d. Llythyr (23/9/2019) oddi wrth BDO yn rhoi gwybod mae'r archwiliad wedi ei gwblhau. Amgáu mae:

Rhybudd o Ganlyniad Archwiliad – mae angen ei harddangos mewn manau amlwg am 14 diwrnod a chyn Medi 30, 2019. Rhoddwyd y rhybudd ar ein tri hysbysfwrdd ac ar ein gwefan.

Nodiadau ynghylch hysbysiad Diwedd yr Archwiliad
Materion yn codi yn sgil yr archwiliad
Manylion cyswllt
Arolwg 2018/19
Ffurflen Flynyddol – angen ei fod ar gael am 14 diwrnod a chyn Medi 30, 2019.

Materion yn codi yn sgil yr archwiliad:

Argymhellion yr Archwilydd Mewnol: Mae'r Archwilydd Mewnol wedi gwneud argymhellion ynghylch gweithrediad y Cyngor. Mae'r mater wedi cael ei godi oherwydd mae risgiau â'r gwendid hwn. Mae rhaid i'r Cyngor weithredu'r argymhellion yr archwilydd mewnol i wella systemau ariannol y Cyngor cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyffredol. Bydd hyn yn gwella rheolau mewnol i atal a chanfod gwallau a thwyll i'r Cyngor weithredu mewn modd effeithiol.

Materion bach: Nid oedd Adran 1 y Ffurflen Flynyddol yn cytuno â'r Ffurflen Flynyddol. Cafodd y ffigyrau cymharol eu hailddatgan. Maent yn fodlon eu bod yn gywir. Does dim angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Cafodd y Ffurflen Flynyddol ei gyflwyno i'r Cyngor a chafodd ei chymeradwyo a'i dderbyn gan y Cyngor.

Eitem 10.b. Llythyr ateb yn rhoi gwybod:

1. mae'r gwaith sgubo ac agor cwteri ar ffordd o Bontnewydd i Rhedyncochion / Esgair Wen am gael sylw.

2. mae'r cais am arwydd 'HERMON' wedi cael ei gyfeirio at uned Draffic yn Caernarfon.

Eitem 5. Eitem10.b. Y cwmniau sydd dan sylw yw BT Group, Three UK, O2, Vodafone Group, EE Limited. Mae diffyg signal ar gyfer galwadau llais a signal ar gyfer data.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/9/2019) oddi wrth Mabon ap Gwynfor, Ymgeisydd Plaid Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Dwyfor Meirionnydd. Llythyr i'w gyflwyno i'r Cynghorwyr y Cyngor. Llythyr ydyw am gefnogaeth i gael Canolfan Ddiagnosis Canser yng Ngwynedd. Os cefnogi'r alwad mae angen llythyr/ebost, a hefyd cael pobl i lofnodi'r llythyr. Awgrymwyd defnyddio cyfeiriad https://www.dwyformeirionnydd.cymru/deiagnosis_canser

Penderfynwyd anfon llythyr ar ran y Cyngor yn cefnogi'r apêl.

b. Llythyr (4/10/2019) oddi wrth Emlyn Roberts yn rhoi gwybod bod canllaw y bont rhwng ffordd A494 a'r fynedfa i Dolfeil, Tycerrig a Caecoch wedi cael ei difrodi.

Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd (4/10/2019) am y difrod ac i wneud rhywbeth i wneud y safle ar ganllaw yn saff. Llythyr ateb (4/10/2019) yn rhoi gwybod roedd Swyddog wedi bod allan yn gweld y difrod.

c. Llythyr (7/10/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Hydref 16, 2019 am 7.00yh. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o Parc Cenedlaethol Eryri ar waith yr adran. Amgáu mae Agenda, Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd ar Fai 22, 2019, Cofnodion Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ar Mehefin 7, 2019.

Llythyr (14/10/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn ychwanegu bydd cyflwyniad yn cael ei roi ar y 'newidiadau arfaethedig i Gynghorau Cymunedol mewn deddfwriaeth ar ddod' yn y cyfarfod.

ch. Llythyr (8/10/2019) oddi wrth Karen yn rhoi gwybod am oryru sydd ar A494 wrth yr ysgol yn Rhydymain. Codwyd y mater yn cyfarfod llywodraethwyr yr ysgol. Gyda Blwyddyn 6 yn treulio bob dydd Iau yn Nolgellau mae'n golygu bod plant gorfod croesi'r prifffordd yn y bore er mwyn cyrraedd safle'r bws ac mae hyn yn hynod o beryglus. Does dim arwyddion "20mya" ar adegau ysgol.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau gydag Arweinydd Tim Priffyrdd, Llywodraeth Cymru ar y mater.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/575. Parcio "motorhome" o fewn cwrtil. 34 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais er ei fod yn un od.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (Medi 2019) oddi wrth Trealon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020. Maent angen cymorth ariannol tuag at y treial bydd yn cael ei gynnal yng Nhghaerberllan, Abergynolwyn rhwng 31 Gorffennaf ac Awst 2, 20120.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

8. Materion Ariannol

b. Llythyr (30/9/2019) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru. Amgáu mae ffurflen i'w gwblhau yn rhoi taliadau a wneir i'r aelodau, taliadau fel defnyddio ffôn, costau teithio. Maent angen y wybodaeth cael ei gyhoeddi a'i ddangos i'r cyhoedd cyn Medi 30. Mae'r Panel angen y wybodaeth hefyd.

Anfonwyd y ffurflen am y flwyddyn 2018 – 2019 gan roi gwybod ni roddwyd taliadau i'r aelodau.

c. Bil (15/10/2019) am £1,141 oddi wrth A.M. Ashton am glirio llwybrau cyhoeddus yr ardal (£1,085) a chlirio gordyfiant o amgylch llochesau bws Drwsynant, Rhydymain a Bontnewydd.

Penderfynwyd talu'r swm ac anfon y bil ymlaen i Gwasanaeth Amgylchedd, Cyngor Gwynedd am ad-daliad.

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Medi, 2019: £1,139.70.

d. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2019: £6,120.38.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd symud yr hysbysfwrdd sydd yn Llanfachreth a'i osod wrth y lloches bws.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

1. camfa newydd rhwng Ysgol Rhydygorlan a Y Cyplau.

2. tocio gwrychoedd sy'n cuddio tri arwydd '30' ar ffyrdd sy'n arwain i Llanfachreth.

3. lefelu hwyneb Ffordd Lefel rhwng mynedfa i Bryn Prydydd a chroesffordd Llanfachreth / Ganllwyd / Glastir / Hermon. Mae'n debygol bod gwreiddiau coed yn creu lympiau yn y ffordd.

Llonfod: Dyddiad: